ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021 - 2022

# MENTER IAITH SIR CAERFFILI

Cynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws cymunedau Sir Caerffili

Menter Iaith Sir Caerffili

MENTRAU IAITH

# rhagair

Ar ddiwedd blwyddyn heriol ond arloesol, pleser yw cyflwyno Adroddiad Blynyddol Menter Iaith Sir Caerffili am y flwyddyn 2021-22, blwyddyn pan welwyd newid syfrdanol i'n gwasanaethau a bywydau ein cymunedau.

Ni ellid ymgymryd â'r her oni bai am deyrngarwch ac ymrwymiad staff, swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor Rheoli, gwirfoddolwyr a phartneriaid fel ei gilydd. Bu nifer o ddatblygiadau cyffrous yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a hynny ar sail cynlluniau o'r newydd, nawdd ychwanegol yn ogystal ag ymateb i ofynion cymunedau lleol ac wrth gwrs heriau effeithiau Covid-19.

Llwyddodd y Fenter i ddenu dros £865,000 o gyllid tuag at wasanaethau cyfrwng Cymraeg i fewn i'r Sir yn ystod y flwyddyn sy'n cynnwys grantiau a chytundeb gan Gyngor B.S.Caerffili, Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwirfoddol Gweithredol Cymru, GAVO, grantiau bach amrywiol a ffioedd gofal plant.

Manteisiwyd ar weithio mewn partneriaeth, a hynny mewn perthynas â nifer o fudiadau a sefydliadau yn lleol, sirol a chenedlaethol. Lansiwyd nifer o gynlluniau a phrosiectau cyffrous yn ystod y flwyddyn.

Mae ein dyled ni yn fawr i aelodau Pwyllgor Rheoli Menter Iaith Sir Caerffili am eu hymroddiad a'u harweiniad parhaol ac am eu cadernid a'u cefnogaeth, i dîm o staff brwdfrydig am eu cydweithrediad ac i'r llu o wirfoddolwyr gweithgar am eu cyfraniad a'u cefnogaeth.



# Pwy ydym ni : cwrdd â'r staff



**Lowri Jones**
Prif Swyddog



**Debbie Thomas**
Swyddog Gweinyddol a Chyllid



**Jayne Nowaczek**
Swyddog Cefnogi Gofal Plant



**Morgan Roberts**
Swyddog Datblygu Digidol



**Louise Rees**
Swyddog Ieuenctid



**Tracy Reeves**
Rheolwr Gwasanaethau Plant a Theuluoedd



**Bethan Jones-Ollerton**
Swyddog Datblygu Cymunedol



**Rhiannon Tucker**
Swyddog Cefnogi Iaith Gofal Plant



**Maria Lees**
Swyddog Cefnogi Gofal Plant



**Lauren Evans**
Swyddog Helo Blod Lleol

# Pwy ydym ni : Bwrdd Rheoli

**Jeff Grenfell**
Cadeirydd

**Gareth James**
Trysorydd

**Huw Rowlands**
Ysgrifennydd y Bwrdd

**Anwen Cullinane**

**Lowri Jones**
Ysgrifenyddes y Cwmni

**Jobe Bruzas**

**Samantha Jarrett**

**Llinos Neale**

**David Thomas**

**Gwyneth Davies**

# Teyrnged i Gareth James



Mawr fu ein tristwch ym mis Chwefror 2022 wrth glywed am farwolaeth ein Trysorydd Gareth James wedi cyfnod o salwch. Ymunodd Gareth a Phwyllgor Rheoli Menter Caerffili nol yn 2017 gan ymgymryd a'r rol o Drysorydd am rhan helaeth o'r amser hwnnw. Bu Gareth hefyd yn un o aelodau cyntaf ein Clwb Cerdded gan barhau i gyfrannu at raglenni'r Clwb a chefnogi yn aml trwy arwain teithiau cerdded.

Roedd hi'n hyfryd dilyn taith Gareth o ddysgu Cymraeg, i fynychu ein sesiynau sgwrsio a'n Clwb Cerdded i fod yn aelod werthfawr o'n Bwrdd Rheoli. Wrth i ni gwblhau'r proses o gyflawni Marc Ansawdd Elusen Dibynadwy, bu Gareth yn cyfrannu'n helaeth at ein gweithdrefnau ariannol a chefnogi'r broses asesu.

Cydymdeimlwn yn fawr gyda'i deulu a'i ffrindiau agos. Rydym yn ddiolchgar iawn am gyfraniad sylweddol Gareth i'n gwaith a'n datblygiad am ddod i'w adnabod.

# Cynlluniau Gofal Plant Menter Iaith Sir Caerffili



Menter Iaith Sir Caerffili yw'r unig ddarparwr o Gynlluniau Gofal tu allan i'r ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir Caerffili. Mae'r 6 **lleoliad** sy'n **cynnwys 17 cynllun**, yn llwyddiannus tu hwnt , gyda niferoedd sy'n mynychu yn cynyddu bob tymor.  Ar gyfartaledd mae **720 o blant** yr wythnos yn mynychu'r Cynlluniau ac rydym yn cynnig dros **60,000 o lefydd gofal plant y flwyddyn**. Rydym yn cael ein harolygu yn fanwl gan Arolygiaeth  Gofal Cymru ac yn sicrhau ein bod yn cyflogi staff cymwysedig a brwdfrydig! Mae'r ddarpariaeth yn darparu cyfle allweddol i gynnig gwaith cyfrwng Cymraeg i siaradwyr Cymraeg y Sir ac yn sicrhau fod pobl ifanc sy'n ennill cymhwyster yn y maes yn medru sicrhau gwaith lleol trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar draws y cynlluniau hyn, cyflogir dros **60 o weithwyr gofal plant**, rhan amser a llawn amser. Erbyn hyn ceir amrywiaeth o ofal cyn ysgol, ar ôl ysgol a gofal gwyliau ar draws y Sir.

Yn ogystal, yn dilyn ein perthynas llwyddiannus gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg y sir, rydym yn darparu  chwe chynllun gofal cofleidiol i gwrdd â'r angen am ofal  ar gyfer y plant hynny sy'n mynychu dosbarthiadau meithrin rhan amser. Mae'r cynlluniau hyn  yn mynd o nerth i nerth gyda chynlluniau pellach ar y gweill ar gyfer cynlluniau gofal ar ôl ysgol a gwyliau newydd.

Rydym yn ddyledus iawn i'n Rheolwr Busnes Gofal Plant, **Tracy Reeves** a'n Swyddogion Cefnogi Gofal Plant **Jayne Nowaczek**, **Rhiannon Tucker** a **Maria Lees** am eu gwaith wrth gefnogi ein staff gofal a sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel, trwy gyfrwng y Gymraeg i deuluoedd y Sir.

Yn ystod y flwyddyn mae ein darpariaeth wedi gwynebu heriau sylweddol wrth i ni orfod cau'r gwasanaeth yn llwyr o fis Mawrth 2020. Ers hynny, mae'r Cynllun Arbed Swyddi wedi ein galluogi ni i gadw'r swyddi o fewn y gwasanaeth er mwyn diogelu ein gweithlu. Ail-agorwyd ein gofal cofleidiol yn ystod Hydref a Gaeaf 2020 cyn i ni orfod cau eto yn ystod y cyfnodau clo. Bu ein gofal ar ol ysgol ar gau am y flwyddyn gyfan. Bu effaith COVID-19 ar y gwasanaeth yn ddifrifol ac yn bellgyrhaeddiol nid yn unig i'n staff, y teuluoedd sy'n ddibynnol ar y gwasanaeth, y plant sy'n mynychu ond hefyd y Fenter yn ei gyfanrwydd. Cyn y pandemig, roedd y gwasanaeth nid yn unig yn hunan-gynhaliol ond hefyd yn cynhyrchu incwm er mwyn i ni fuddsoddi mewn amrywiaeth o weithgareddau a gwasanaethau yn y gymuned. Ail-agorodd y gwasanaeth cyfan yn ystod tymor yr Hydref 2021 ac ers hynny mae hi wedi ail adeiladu yn llwyddiannus.









# Y Ffordd i Ddwyieithrwydd : ar gyfer y Sector Gofal Plant

**Yn ogystal â darpariaeth gofal plant y Fenter, bu Menter Iaith yn llwyddiannus wrth ennill cytundeb oddi wrth Gyngor B.S.Caerffili ym Mawrth 2022 unwaith eto i ddarparu cefnogaeth a chyngor i drawstoriad o leoliadau gofal plant i gynyddu eu defnydd o'r iaith Gymraeg.**

Mae Menter Caerffili yn **cyflogi Swyddog Cefnogi** er mwyn datblygu'r gefnogaeth hwn sy'n cynnig pecyn cynhwysfawr o gefnogaeth i ofalwyr plant, cylchoedd meithrin a meithrinfeydd preifat.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Swyddog, **Rhiannon Tucker** wedi parhau i weithredu ein cynllun ar gyfer darpariaethau sydd am gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg sef, '**Y Ffordd i Ddwyieithrwydd**'. Darparwyd y gefnogaeth yn ddigidol trwy ddarparu adnoddau a chyngor gan nad oedd yn bosib ymweld pob tro a safleoedd.

Mae'r cynllun yn cynnig cyfle i amrywiaeth o leoliadau gofal plant i ddatblygu gan gytuno ar dargedau ymarferol er mwyn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ar draws elfennau o'u gwaith. Bwriedir datblygu'r cynllun ymhellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod gan gefnogi rhagor o ddarpariaethau i fabwysiadu'r cynllun.





# Gweithgareddau teulu, plant a phobl ifanc



DROS 3000 YN GWYLIO/CYMRYD RHAN

DROS 20 GWEITHGAREDD DIGIDOL

DROS 50 GWEITHGAREDD WYNEB YN WYNEB



Miri Meithrin

**Mae cynnig gweithgareddau i'r teulu gyfan yn flaenoriaeth i'r Fenter ac yn ystod y flwyddyn, darparwyd rhaglen digidol ac yn yr awyr agored yn arbennig i deuluoedd.**

Wrth i ysgolion cau, roedd yn allweddol bod cyfleoedd cyfrwng Cymraeg ar gael i blant a'u teuluoedd er mwyn sicrhau cyswllt a'r Gymraeg. Bu'r rhaglen yn cynnwys ein sesiynau chwarae Miri Meithrin, gweithdai cartwnio, celf a chrefft, cadw'n heini, cynlluniau chwarae, gweithdai digidol clwb drama a mwy.

Yn ogystal a nifer o sesiynau 'byw' datblygwyd cyfres o fideos yn rhannu syniadau am weithgareddau creu, gweithgareddau Nadoligaidd a gwybodaeth am y pandemig.

# Gweithgareddau digidol i blant a phobl ifanc

**Yn ystod y flwyddyn roeddem yn awyddus iawn i ddatblygu ymhellach y cyfleoedd a sefydlwyd i blant, pobl ifanc ac oedolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau digidol trwy gyfrwng y Gymraeg. Roeddem yn ffodus iawn felly, wrth i’r cyfnodau clo cychwyn, bod gennym y seilwaith mewn lle er mwyn datblygu rhaglen digidol.**


Daeth yn glir o’n gwaith ymgynghori ac ymchwil pellach bod prinder o gynnwys cyfrwng Cymraeg ar-lein yn ogystal â diffyg rhwydweithiau ar-lein cyfrwng Cymraeg, sianeli a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg lleol a oedd yn rhoi cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau digidol.

Yn ystod y cyfnod, cynhaliwyd nifer o weithdai a sesiynau gan gynnwys gweithgareddau gemau retro, animeiddio lego, adeiladu cyfrifiadur a llawer mwy. Yn ogystal, datblygwyd ein sianeli YouTube ymhellach ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd sydd bellach yn cynnig cyfle i bobl leol rhannu profiadau, dilyn diddordebau a chyfathrebu gyda siaradwyr a dysgwyr Cymraeg eraill.

Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan bobl sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect, gan gynnwys pobl ifanc sydd ag anghenion arbennig ac yn elwa’n fawr o’r profiad.

Ein gobaith yw sicrhau cyllid hirdymor ar gyfer y gwaith dylanwadol hwn er mwyn sicrhau fod cyfleoedd lleol a chyffrous i ddefnyddio’r Gymraeg ar-lein.

Enwebwyd y gwaith hwn ac yn arbennig gwaith ein Swyddog Datblygu Digidol yng Ngwobrau Elusennau Cymru am y tro cyntaf a derbyniwyd clod mawr yn y categori Defnydd Gorau o’r Gymraeg.







# Gwersi a Chyfleoedd i Oedolion

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf datblygwyd rhaglen amrywiol o gyfleoedd i oedolion i ddysgu sgiliau newydd trwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r rhan fwyaf o rheini yn ddigidol.**

Bu'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dosbarthiadau trefnu blodau, coginio, ysgrifennu creadigol, cynganeddu, Clwb Garddio misol, yoga a mwy. Yn ystod y flwyddyn mynychodd **dros 50 o oedolion** ein rhaglen o ddosbarthiadau a sesiynau cymdeithasu.

Rydym yn parhau i ymgynghori ag oedolion er mwyn canfod beth yw ei gofynion am ddosbarthiadau a chyfleoedd pellach. Yn ystod y cyfnodau clo, roedd hi'n bwysig iawn i'r Fenter ein bod yn cynorthwyo a chefnogi mudiadau eraill yn lleol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Buom felly yn cefnogi Papur Bro CwmNi, Cwmni Drama CwmNi a changen lleol Merched y Wawr i gwrdd yn ddigidol. Yn sgil y gefnogaeth, roedd yn bosib i'r mudiadau hyn i barhau i gwrdd a chefnogi eu haelodau.

**DROS**
**50**
**O OEDOLION**







# Clwb Cerdded Menter Caerffili



**Mae'r Clwb Cerdded wedi datblygu i fod yn un o grwpiau mwyaf lwyddiannus a phoblogaidd y Fenter ac erbyn hyn mae grŵp ffyddlon o oedolion lleol yn cwrdd yn wythnosol ar fore dydd Mercher i gerdded mewn mannau amrywiol ar draws y sir. Yn ystod y cyfnodau clo, pan oedd canllawiau yn caniatau, bu'r Clwb Cerdded yn cynnig cyfle gwerthfawr i'w aelodau i gwrdd ag eraill a mwynhau bod yn yr awyr agored.**

Y grŵp ei hun sy'n cynllunio'r teithiau ac yn cwrdd yn swyddfa'r Fenter er mwyn penderfynu ar y rhaglen ar gyfer y misoedd i ddod.

**Morgan Roberts,** ein Swyddog Datblygu Digidol sy'n gyfrifol am sefydlu'r grŵp a'i arwain ond mae nifer o unigolion o fewn y grŵp hefyd yn arwain yn ogystal ag un o'r Swyddogion Adran Parciau a Chefn Gwlad y Cyngor, sydd wedi dysgu Cymraeg ac yn awyddus i weld cyfleoedd fel hyn yn datblygu.



# Partneriaeth gyda Celf ar y Blaen

**Am nifer o flynyddoedd mae Menter Caerffili wedi gweithio agos iawn â'r mudiad Celf Ar y Blaen (Head4Arts), mudiad sy'n hyrwyddo'r celfyddydau ac yn datblygu cyfleoedd newydd ar draws cymunedau Blaenau'r Cymoedd i bobl leol cymryd rhan yn y celfyddydau, dysgu mwy amdanynt a datblygu sgiliau newydd.**







Mae Menter Caerffili wedi darparu nifer o gyfleoedd a digwyddiadau ar y cyd â Chelf Ar y Blaen er mwyn sicrhau bod cyfleoedd celfyddydol cyfrwng Cymraeg ar gael yn lleol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi datblygu'r bartneriaeth ymhellach wrth i'n Swyddog Datblygu Digidol weithio'n agos gyda thîm Celf Ar y Blaen a chyflawni gwaith ar eu rhan er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth gelfyddydol cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

Mae'r gwaith hwn wedi adeiladu ar y cydweithio gwych a ddatblygodd yn sgîl prosiect Betwyll ac edrychwn ymlaen at barhau gyda'r bartneriaeth lwyddiannus hwn.

# Dysgwyr y Gymraeg



Bore Coffi Coed Duon

**Mae darparu gweithgareddau i ddysgwyr y Gymraeg wedi bod yn flaenoriaeth i'r Fenter ers y cychwyn.**

Erbyn hyn mae gyda ni nifer sylweddol o ddysgwyr sy'n dibynnu ar y Fenter am gyfleoedd i fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac i gwrdd â dysgwyr eraill.

Yn ystod y cyfnodau clo buom yn rhedeg boreau coffi wythnosol dros Zoom, sesiwn yn yr awyr agored ym Mhwll Penyfan, Sadyrnau Siarad yn fisol a chlwb darllen yn ddigidol. Yn ogystal trefnwyd nifer o ddigwyddiadau yn arbennig ar gyfer dysgwyr yn ystod y flwyddyn gan gynnwys Steddfod Digidol a chwisiau. Dangosodd effeithiau'r pandemig bod cyswllt cryf rhwng lles ein cymunedau a'r gallu i fynychu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn lleol.

Mae'n bwysig nodi ein bod wedi derbyn cefnogaeth ac ymrwymiad diffuant oddi wrth ddysgwyr y sir ers cychwyn y Fenter ac erbyn hyn mae grŵp craidd o ddysgwyr yn mynychu pob gweithgaredd a gynigir. Mae'r Fenter hefyd yn gweithio'n agos â Dysgu Cymraeg Gwent wrth lunio ei raglen o gyfleoedd i ddysgwyr.

# Ffiliffest 2021 ar-lein

**Unwaith eto eleni cynhaliwyd ein gŵyl haf cymunedol cyfrwng Cymraeg ar lein.**

**Ar Fehefin 19eg 2021, cynhaliwyd diwrnod o weithgareddau, perfformiadau a stondinau rhithiol ar gyfer y teulu cyfan gan gynnwys unwaith eto arddangosfa enfawr o ddawnsio gwerin gan ysgolion.**

Ymwelodd **dros 9000 â'r ŵyl yn ystod y diwrnod gyda rhaglen amrywiol iawn o berfformiadau, sgyrsiau, marchnad stondinau a gweithgareddau.**

Rydym yn ddiolchgar iawn i **Bethan Jones-Ollerton** am gydlynu trefniadau Ffiliffest 2021.

Erbyn hyn mae Ffiliffest yn uchafbwynt yn ystod y flwyddyn i'r Fenter ac i'n partneriaid ac yn cynnig cyfle ardderchog i ddathlu Cymreictod y sir ac i ddangos yr amrywiaeth o gyfleoedd sy'n bodoli'n lleol i ddefnyddio'r Gymraeg. Edrychwn ymlaen at ddatblygu'r ŵyl ymhellach y flwyddyn nesaf ac yn cynllunio ar gyfer digwyddiad wyneb yn wyneb yn 2022.









**DROS**
**9000**
**O**
**WELEDIADAU**

# Ffair Nadolig 2021

Eleni, dychwelodd ein Ffair Nadolig hynod boblogaidd i Lancaiach Fawr ar Dachwedd 27ain. Roeddem yn awyddus iawn i gynnig cyfle i fusnesau lleol i werthu nwyddau ac i blant a theuluoedd mwynhau perfformiadau gan ysgolion lleol, cymryd rhan mewn gweithgareddau crefft amrywiol ac ymweld a groto arbennig Sion Corn.






DROS
15
O FUSNESAU
LLEOL

DROS
600
YN
YMWELD

# Helo Blod Lleol

**Ym mis Ionawr 2020, croesawyd Lauren Evans i'r Fenter fel ein swyddog Helo Blod Lleol newydd ar gyfer Sir Caerffili ac mae Lauren hefyd yn gweithio ar ran y prosiect yn Sir Merthyr Tydfil.**

**Yn ogystal â chynnig cefnogaeth ddwys, mae'r prosiect hefyd yn gweithio'n agos â rhwydweithiau a fforymau busnes eraill ar draws y sir ac yn targedu sectorau penodol megis y sector bwyd a diod. Mae'n bosib hefyd y gwelwch mwy o Gymraeg ar rai o brif strydoedd siopa'r Sir wrth i Lauren ddosbarthu arwyddion agor a chau dwyieithog a deunyddiau eraill sy'n croesawu cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg.**

Mae achos busnes cryf i gwmnïau ddefnyddio'r Gymraeg ac mae angen mwy o gymorth nag erioed o'r blaen i helpu busnesau bach a mawr i wneud hynny'n effeithiol yn sir Caerffili. Pwrpas y prosiect yw ymgysylltu a gweithio gyda chyflogwyr a sefydliadau i gefnogi, hwyluso a chynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg ac i ysgogi cwmnïau a sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg fel arf i hybu gweithgareddau a datblygiad economaidd o fewn yr ardal.



# Prosiect Hyder

**Ym mis Medi 2019, dechreuom brosiect newydd cyffrous ar y cyd â Menter Bro Dinefwr ac ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.**

Bu'r prosiect yn gyfle gwerthfawr i gefnogi 10 o unigolion lleol sydd wedi colli hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, nifer ohonynt yn gyn-ddisgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg y Sir. Am flynyddoedd lawer, rydym wedi cydnabod a thrafod yr her o gefnogi'r rheini nad sy'n defnyddio'u Cymraeg wedi gadael ysgol ac felly'n colli hyder a chyswllt â'r Gymraeg.

Am y tro cyntaf felly, cawsom gyfle i flaenoriaethu'r gwaith hwn gyda'n Swyddog Datblygu Cymunedol, **Bethan Jones-Ollerton** yn darparu **cefnogaeth ddwys un wrth** un i'r unigolion hyn i'w galluogi i ail-gydio yn y Gymraeg a magu hyder wrth gymryd rhan mewn cyfleoedd lleol i ddefnyddio'r Gymraeg. Wrth gefnogi'r unigolion, bu **Bethan** yn cytuno ar dargedau a heriau personol er mwyn goresgyn pryderon ac anawsterau wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn dilyn diwedd y pilot gwreiddiol mae'r dull newydd hwn o weithio gyda'r grŵp targed penodol hwn wedi profi i fod yn llwyddiannus iawn gydag adborth cadarnhaol iawn o'r cyfranogwyr. Rydym wedi derbyn cyllid pellach i barhau i gefnogi'r unigolion, yn ogystal ag unigolion pellach. Ein gobaith yw y byddant yn medru newid eu harferion wrth ddefnyddio'r Gymraeg a mynychu gweithgareddau'r Fenter a mudiadau eraill yn lleol.



# Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd Sir Caerffili 2017-2022

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld bedwaredd flwyddyn y Strategaeth wrth i drawstoriad o bartneriaid ac adrannau amrywiol Cyngor B.S.Caerffili cydweithio er mwyn gwireddu amcanion y Strategaeth.

Lansiwyd y Strategaeth yn ffurfiol gan Y Gweinidog Dysgu Gydol Oes a'r Gymraeg, **Alun Davies** yn Ffiliffest ym mis Mehefin 2017 ac ers hynny, mae partneriaid wedi bod yn cydweithio'n agos ar nifer o brosiectau newydd.

Teimlwn fod y Strategaeth yn cydnabod y gwaith sylweddol sy'n digwydd eisoes yn ogystal a chynnig her i ni i gyd er mwyn cynyddu'r nifer o gyfleoedd a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn lleol.


Fel Fforwm Iaith, rydym yn arbennig o awyddus i weld cynnydd yn y nifer o wasanaethau sydd ar gael yn lleol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd trwy Gymraeg er mwyn cwrdd a'r galw cynyddol yn lleol.

Wrth ddatblygu'r Strategaeth, roeddem hefyd yn awyddus i ddatblygu targedau a fyddai'n cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o gynhyrchu miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Ar ddiwedd **Mawrth 2021**, bu nifer o'r rhanddeiliaid yn adrodd ar gynnydd y Strategaeth yn ystod y flwyddyn. Mae'r Strategaeth yn cynnig sylfaen cadarn a gweledigaeth strategol ar gyfer cynyddu defnydd y Gymraeg yn sir Caerffili ac edrychwn ymlaen at weld effaith y Strategaeth yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Gyda'r Strategaeth hon yn dod i ben yn 2022, mae hi nawr yn gyfle i ni gyd ystyried beth hoffem weld yn y Strategaeth newydd. Mae gennym gyfle i gynllunio ar y cyd ac yn strategol er mwyn bod yn uchelgeisiol a datblygu cyfleoedd newydd yn lleol i ddefnyddio'r Gymraeg.

## Strategaeth Cymraeg 5 Mlynedd
## Bwrdeistref Sirol Caerffili
## 2017 - 2022



Man gwyrddach i fyw, gweithio ac ymweld
A greener place to live, work and visit

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

# Fforwm Iaith Sir Caerffili

**Mae'r Fenter yn cydlynu ac yn arwain y Fforwm hwn o fudiadau, cymdeithasau ac unigolion sy'n gweithredu'n ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg.**

Bwriad y Fforwm yw cynnig cyfle i fudiadau lleoli gydweithio, rhannu arfer da a datblygu llais cryf lleol dros y Gymraeg.

Bu'r Fforwm yn hollbwysig wrth drefnu Ffiliffest eleni a thrafodir amrywiaeth o bynciau gan gynnwys pwysigrwydd gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Teimlwn yn ffodus iawn bod gennym Fforwm Iaith weithgar gyda chynrychiolaeth eang o fudiadau a phartneriaid gan gynnwys:

Urdd Gobaith Cymru
Mudiad Meithrin
Cymraeg i Blant
Merched y Wawr
Coleg y Cymoedd
Canolfan Dysgu Cymraeg Gwent
Canolfan Gristnogol Siloh
Papur CwmNi,
RhAG
a Heddlu Gwent

Gobeithir y bydd y Fforwm yn parhau i ddatblygu ac yn cynnig cyfle i gyfleu safbwynt cryf a dylanwadol dros y Gymraeg yn lleol.



# Gwirfoddoli gyda Menter Caerffili

**Mae denu a chefnogi gwirfoddolwyr wedi bod yn rhan annatod o waith y Fenter ers ei sefydlu.**

Mae cefnogaeth ac ymroddiad gwirfoddolwyr yn ein galluogi ni i ddarparu trawstoriad eang o gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ogystal, mae'r cyfle i wirfoddoli gyda'r Fenter trwy gyfrwng y Gymraeg yn brofiad allweddol wrth ddysgu'r Gymraeg, rhannu sgiliau neu fanteisio ar gyfleoedd newydd o fewn y gymuned i ddefnyddio eich Cymraeg.

Mawr obeithiwn y gallwn barhau i ddatblygu'r cyfleoedd hyn a sicrhau fod cyfleoedd newydd i wirfoddolwyr o bob oedran i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol a derbyn cydnabyddiaeth am y cyfraniad hwn.





# e@chlysur



**Rydym yn gweithredu system e-bost sy’n dosbarthu gwybodaeth am wasanaethau’r Fenter yn ogystal â gweithgareddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog eraill yn lleol. Gellir cofrestru i dderbyn e-byst ar ein gwefan.  Mae echlysur yn ffynhonnell wych o hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg yng Nghaerffili yn rhad ac am ddim.**


**MENTER IAITH SIR CAERFFILI**

Suite 1

Parc St. Margaret’s, Heol Pengam

Aberbargoed, CF81 9FW

01443 820913

gwybodaeth@mentercaerffili.cymru

www.mentercaerffili.cymru



Elusen Gofrestredig:  1105172  |  Cwmni Cyfyngedig drwy warrant: 5096968